# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorydd Kenneth P. Hughes (Aelod Portffolio Addysg),<br>Y Cynghorydd Aled M. Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol),<br>Y Cynghorydd Ann Griffith (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol),<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaeth,<br>Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol),<br>Liz Fletcher (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Tîm Ardal y Gorllewin),<br>Rona Jones (Swyddog Adolygu Annibynnol),<br>Dr Einir Thomas (Swyddog Addysg - ADY),<br>Heulwen Owen - Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Llyr Bryn Roberts (Prif Swyddog - Rhianta Corfforaethol a Phartneriaethau),<br>Dawn Owen (Arweinydd Tîm Lleoli Plant),<br>Steve Pimblett (Arweinydd TîmPDG Dros Dro),<br>Llinos Edwards (Nyrs PDG),<br>Mairwen Hughes (Swyddog Pwyllgor). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Anwen Huws (Pennaeth Gwasanaethau Plant)<br>Douglas Watson (Cadeirydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 6 MEHEFIN, 2016**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir - gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2016.

**3 MATERION YN CODI**

- **Effaith ar Adnoddau Addysg pan gaiff plant eu lleoli ar Ynys Môn gan Awdurdodau Lleol eraill**

  Dywedodd y Swyddog Addysg - ADY fod 27 o blant mewn gofal wedi cael eu lleoli yn Ynys Môn gan Awdurdodau Lleol eraill. Mae 20 o'r disgyblion ar y Gofrestr ADY. Cyfeiriodd at y tabl a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd yn rhoi dadansoddiad o'r gost o gefnogi disgyblion - cyfanswm o £ 188,263. Gall yr Awdurdod Addysg godi ar awdurdodau lleol eraill am gostau'r Cymorthyddion Addysg a chostau athrawon Arbenigol ond ni fedr wneud hynny'n achos y costau gweinyddol na'r cyfleusterau eraill a gynigir yn yr ysgolion ble mae'r plant yn cael eu lleoli.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

- **Codi Uchelgeisiau a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru**

  Cafwyd trafodaeth yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf a oedd yn rhoi crynodeb o’r modd y mae'r Awdurdod Addysg, fel y gwasanaeth sy’n arwain ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru', yn rhoi sylw i’r camau gweithredu sydd wedi eu priodoli i awdurdodau lleol yn yr adroddiad gyda golwg ar gwblhau’r rhain erbyn Hydref 2016.

  Dywedodd y Swyddogion Addysg fod angen gwneud gwaith i wneud yn siŵr bod yna gyfathrebu clir ac i sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu rhwng yr Awdurdod Addysg a'r ysgolion. Rhagwelir y gellir gwneud cyflwyniad Panel Rhiant Corfforaethol unwaith y bydd Cynllun Gweithredu’r Awdurdod Addysg wedi cael ei gwblhau i fynd i'r afael â Strategaeth Llywodraeth Cymru.

  **Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

  **DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

- **Materion Iechyd**

  Soniodd y Nyrs LAC am y drafodaeth a gafwyd gyda CAHMS ynghylch mynd i'r afael mewn modd integredig â materion beichiogrwydd / perthynas ymhlith pobl ifanc sy'n derbyn gofal a’r rhai sy'n gadael gofal. Mae’r Nyrs LAC wedi derbyn cynllun gweithredu llwybr drafft a nododd y bydd cyfarfod yn awr yn cael ei drefnu gyda'r Seicolegwyr Clinigol o Wynedd ac Ynys Môn i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y cynllun gweithredu.

  Dywedodd y Nyrs LAC ymhellach y bydd holiadur yn awr yn cael ei anfon allan at rieni maeth ynghylch pryderon emosiynol plant mewn gofal hyd at 9 oed a phlant 10 i 16 oed. Mae holiadur ‘hwyliau a theimladau' hefyd ar gael i blant mewn gofal er mwyn asesu unrhyw bryderon sydd ganddynt ac sydd angen sylw.

  Nododd y Cadeirydd bod y gwaith cyfeirio, felly, wedi cychwyn gyda'r cynllun llwybr ar gyfer Ynys Môn ac y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol yn y man.

  **Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Nyrs LAC i adrodd yn ôl i’r cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol yn dilyn trafodaethau gyda'r Seicolegwyr Clinigol.**

- **Cynllun Gweithredu - Cynlluniau Addysg Personol**

  Rhoes y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal adroddiad ar y Cynllun Gweithredu sy'n dangos sut y mae perfformiad yn erbyn yr angen i ddarparu Cynllun Addysg Personol ar gyfer pob plentyn sy’n derbyn gofal, yn cael ei wella. Nododd y bydd pob ysgol â phlentyn sydd â Chynllun Addysg Personol yn cael ymweliad i godi ymwybyddiaeth o’r Cynllun Gweithredu ar gyfer anghenion pob plentyn. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal bob tymor ysgol. Dywedodd y Swyddog y bydd y data’n cael ei goladu yn fisol gan yr ysgolion a bydd hynny’n caniatáu i'r Awdurdod Addysg gynhyrchu Adroddiad Blynyddol ym mis Mawrth 2017. Bydd yr Awdurdod Addysg wedyn yn gallu monitro effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**GWEITHREDU YN CODI: Bydd Adroddiad diweddaru'n cael ei gyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol ym Mawrth 2017 ar effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.**

## 4 Y GOFAL IAWN: HAWLIAU PLANT MEWN GOFAL PRESWYL YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Panel - adroddiad Comisiynydd Plant Cymru.

Dygodd y Prif Swyddog - Rhianta Corfforaethol a Phartneriaethau sylw'r Panel at y pedwar argymhelliad a geir yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar hawliau plant mewn gofal preswyl yng Nghymru.

**Cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

## 5 ASIANTAETH GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - LLYFR GWAITH RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Panel – Llyfr Gwaith Rhiantu Corfforaethol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dywedodd y Prif Swyddog Rhiantu Corfforaethol a Phartneriaethau y dylai'r llyfr gwaith gael ei ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysg Plant mewn Gofal. Mae sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig wedi cael ei threfnu ar gyfer 17 Tachwedd, 2016 mewn perthynas â chyfrifoldebau a gofynion Rhiantu Corfforaethol. Y gobaith yw gwahodd person ifanc sydd wedi gadael gofal i gymryd rhan yn y sesiwn hyfforddi.

**Cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU YN CODI: Nodi y bydd y sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig yn cael ei chynnal ar 17 Tachwedd, 2016.**

## 6 ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Panel - Adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 1 2016/17. Roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad ystadegol o oedran a statws cyfreithiol plant mewn gofal Ynys Môn ynghyd â'r rhesymau am eu lleoli ac yn tynnu sylw at arferion a meysydd sy'n peri risg a phryderon.

Adroddodd y Swyddog Adolygu Annibynnol ar y prif bwyntiau canlynol: -

- Ar ddiwedd mis Mehefin 2016, roedd cyfanswm o 126 o blant a phobl ifanc yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol; cynnydd o 14 o blant / pobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' o gymharu â 112 yn y ffigur chwarter blaenorol;
- Roedd un person ifanc ar hyn o bryd yn 'ward y llys';
- Rhoddwyd esboniad i'r Panel am y rhesymau dros leoli plant sy'n derbyn gofal ynghyd â'r math o leoliadau sydd ar gael;
- Roedd y risgiau a nodwyd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnwys materion yn ymwneud ag 'ymweliadau statudol' y mae angen eglurder yn eu cylch ac y dylid ymgorffori mater ehangach, sef y dylai ymweliadau statudol gynnwys ymweld â'r plentyn yn y cartref;

Rhoes y Panel sylw i adroddiad y SAA ac ymateb y gwasanaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol: -

- Nid yw 'Ymweliadau statudol' yn gyflawn heb fynd i weld y lle y mae'r person ifanc yn cysgu a sicrhau bod teganau sy'n addas ar gyfer oedran y plentyn ar gael yn y cartref;
- Cwestiynau a godwyd ynghylch pobl ifanc mewn gofal sydd ar goll. Dywedodd y Swyddog Adolygu Annibynnol bod 4 person ifanc ar goll yn hanesyddol a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r heddlu. Tybir bod y bobl ifanc hyn bellach dros 21 oed ac felly nid oes unrhyw gyfarfodydd dilynol gyda'r heddlu wedi cael eu cynnal.

**Cytunwyd i nodi adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Panel i gael data ynghylch adroddiadau am bobl ifanc mewn gofal sydd ar goll ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.**

## 7 ADRODDIADAU GWASANAETH

- **Adroddiad y Tîm Lleoli Plant**

Cyflwynwyd a nodwyd gan y Panel - adroddiad yr Arweinydd Tîm Lleoli Plant. Roedd yr adroddiad yn darparu diweddariad i'r Panel ar y sefyllfa o ran y mathau o leoliadau ar gyfer Ynys Môn Plant sy'n Derbyn Gofal, y galw am leoliadau, asesu gofalwyr maeth a'r hyfforddiant a ddarperir, ynghyd â risgiau a phryderon.

Dymunodd y Cadeirydd nodi ei werthfawrogiad am y gwaith a wnaed gan y Tîm Lleoli Plant yn enwedig o ystyried capasiti presennol y tîm.

**DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

- **Adroddiad y Nyrs LAC mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal**

Cyflwynwyd a nodwyd gan y Panel, adroddiad y Nyrs LAC. Roedd yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'r materion iechyd y mae angen mynd i'r afael a mynd i'r afael â nhw o'r asesiadau iechyd cychwynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r materion iechyd a adolygwyd.

**DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

- **Adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**

Nododd y Panel adroddiad y Swyddog Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal am Chwarter 4. Nododd y bydd y newidiadau mewn perthynas â Chynlluniau Addysg Personol yn dod i rym ym mis Hydref 2016 ac y bydd raid i ysgolion eu cwblhau o fewn 20 diwrnod o'r adeg y daeth plentyn yn 'blentyn mewn gofal', ac yna i adolygu'r cynlluniau naill ai'n flynyddol neu bob tymor os oes angen.

**DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

- **Adroddiad y Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal**

Cyflwynwyd i'r Panel - adroddiad y Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal ac fe'i nodwyd ganddo. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y chwarter, materion staffio, risgiau a phryderon a chamau gweithredu a gynlluniwyd o fewn y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal.

Nododd y Cadeirydd fod angen rhoi cyfle i staff yn y Tîm PDG ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'u harbenigedd yn y tîm. Roedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno bod parhad staff yn hanfodol o fewn y tîm hwn ac y gall y staff asiantaeth a gyflogir ar hyn o bryd bontio'r bwlch tra mae'r tîm yn cael cyfle i wneud cynnydd o fewn eu maes gwaith.

**DIM ANGEN CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 8 DIWRNOD HWYL MAETHU

Nodwyd y cynhelir Diwrnod Hwyl Maethu ar 17 Medi, 2016.

## 9 CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o’r Panel Rhiant Corfforaethol am 2.00 pm, dydd Llun 5 Rhagfyr, 2016.

**Dr Gwynne Jones**
**CADEIRYDD**

1